

Gwneud gwahaniaeth

Adroddiad Effaith yr IOPC 2020/21

Mae'r adroddiad hwn yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021.

Cyflwynir yr adroddiad hwn er cof am Judy Nicholson a phawb y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt eleni. Roedd Judy, a fu farw yn ystod y flwyddyn, yn ymchwilydd arweiniol yn ein swyddfa yn Sale. Byddwn yn cofio am gyfraniad Judy i'r IOPC fel ymchwilydd arweiniol, ei phersonoliaeth wych a'r effaith y cafodd ar bob un ohonom.

Llun clawr: Ethan Wilkinson
Llun ar dudalen 18: James Eades

© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2021)



Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0
oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon.
Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

SERVICE
EXCELLENCE®

RHAGORIAETH MEWN
GWASANAETH
I GWSMERIAID®



Cynnwys

Neges gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol	4
Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud	6
Gwneud gwahaniaeth trwy atebolrwydd a dysgu	7
1 Gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu	8
2 Gwellu plismona trwy adnabod a rhannu gwersi a ddysgwyd trwy ein gwaith	18
3 Gwellu hyder y cyhoedd yn atebolrwydd yr heddlu	28
4 Sicrhau ein bod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol	40

Neges gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Dyma ein trydydd adroddiad effaith sy'n amlinellu ein cyflawniadau a'r gwahaniaeth yr ydym wedi'i wneud fel sefydliad.

Fel y gwyddom i gyd, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn na welwyd ei thebyg o'r blaen. Mae'r pandemig byd-eang wedi cael effaith y tu hwnt i unrhyw beth y gallem ei ddychmygu, ac mae digwyddiadau fel llofruddiaeth drasig George Floyd yn yr Unol Daleithiau wedi cael effaith ar bob un ohonom. Roedd plismona yn ystod y pandemig dan y chwyddwydr, a gwelsom bryderon cynyddol gan y gymuned ynghylch stopio a chwilio, defnyddio Tasers, gwahaniaethu a defnyddio grym yn anghymesur.

Mae gan yr heddlu rymoedd sylweddol sy'n gallu cael effaith ar ryddid a bywydau pobl. Mae'n hanfodol bod gan y cyhoedd ffydd bod y grymoedd hynny'n cael eu defnyddio'n gywir, yn briodol ac yn gyfrifol.

Yn ystod ein tair blynedd gyntaf o weithredu, gwnaethom gwblhau bron i 1,900 o ymchwiliadau craidd a gwella amseroldeb yn sylweddol, gyda 91% o ymchwiliadau bellach yn cael eu cwblhau mewn 12 mis.

“Mae ein hargymhellion dysgu wedi gwella arferion plismona ar lefelau cenedlaethol a lleol mewn meysydd fel gweithgareddau tactegol, stelcio ac aflonyddu i warantau chwilio... Fel y dengys yr adroddiad hwn, mae'r gwaith a wnawn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.”

Gwnaethom hefyd gynnal dros 3,000 o adolygiadau o ymchwiliadau lleol i farwolaethau neu anafiadau difrifol a chwblhau dros 6,000 o apeliadau dilys gan bobl a oedd yn anhapus â chanlyniad eu cwyn neu'r ffordd y cafodd ei thrin.

Ym mis Chwefror 2020, cyflwynwyd newidiadau deddfwriaethol i system gwynion yr heddlu a gryfhodd ein rôl a'n hannibyniaeth trwy bwerau newydd. Mae'r rhain yn cynnwys y pŵer menter i alw materion i mewn, y pŵer i ailagor ymchwiliad a'r pŵer i argymhell datrys i ddatrys cwyn. Rydym eisoes yn dechrau gweld rhywfaint o dystiolaeth o well mynediad at y system gwynion a gwelliant yn y ffordd mae'r heddlu yn delio â chwynion.

Rydym hefyd wedi gosod pwyslais llawer mwy ar ddysgu ac rydym bellach wedi gwneud dros 400 o argymhellion dysgu ers ein sefydlu.

Mae'r argymhellion dysgu hyn wedi gwella arferion plismona ar lefel cenedlaethol a lleol mewn meysydd o weithgareddau tactegol, stelcio ac aflonyddu i warantau chwilio. Er enghraifft, arweiniodd ein hargymhellion yn dilyn Ymgyrch Kentia at newidiadau cenedlaethol mewn ceisiadau gwarant chwilio a mwy na 24,000 o heddwision yn cael hyfforddiant pellach yn y maes hwn.

Elfen allweddol o'n cenhadaeth yw gwella hyder y cyhoedd mewn plismona. Y llynedd, roedd 52% o bobl ifanc yn teimlo'n hyderus bod yr heddlu yn delio â chwynion yn deg. Byddwn yn parhau â gwaith gwyh ein panel ieuencid, sydd wedi ein helpu i egluro hawliau pobl ifanc a gwella eu hymwybyddiaeth o system gwynion yr heddlu.

Mae plismona yn ystod y pandemig, rheoli protestiadau a'r mudiad Bywydau Du o Bwys i gyd yn debygol o fod wedi cyfrannu at y gostyngiad yn hyder ieuencid a welsom eleni. Ein ffocws yn ystod y flwyddyn i ddod fydd deall hyn ymhellach a pharhau i weithio gyda'r heddlu ac eraill i sicrhau bod y system gwynion yn diwallu eu hanghenion.

Dangosodd canlyniadau diweddaraf ein harolygon rhanddeiliaid fod teimladau yn fwy cadarnhaol nag erioed o'r blaen, a chanmolwyd ein hymdrechion i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn well yn fawr. Roedd yn bwysig i ni dreulio amser gyda chymunedau ledled y wlad yn gwrandao ar eu materion a'u pryderon


er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gwrdd â dros 300 o grwpiau cymunedol a sefydliadau a chael adborth cadarnhaol a mewnwlediadau gwerthfawr.

Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn rhannu canlyniadau ein hadolygiadau o 100 o ymchwiliadau Taser, sy'n nodi meysydd o ddysgu systemig. Byddwn hefyd yn cyhoeddi canlyniadau cynnar ein gwaith ar wahaniaethu seiliedig ar hil. Rydym yn disgwyl i'r gwaith ar ein hymchwiliad i Hillsborough ac Ymgyrch Linden (cam-drin plant hanesyddol yn Rotherham) i barhau, gyda'r adroddiadau terfynol yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol.

Heriodd COVID-19 ein ffyrdd o weithio yn sylfaenol ond diolch i'n staff fe wnaethom symud yn gyflym i weithio gartref ac addasu i'r heriau newydd a wynebwyd gennym. Rwy'n hynod falch o'r hyblygrwydd a'r gwytnwch y mae ein staff wedi'i ddangos trwy gydol y cyfnod hwn.

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'n Cyfarwyddwyr Anweithredol y gorffennodd eu tymor tair blynedd yn gynharach eleni am eu cymorth a'u cyngor pwysig. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at weithio gyda'n Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd, maen nhw'n dod â llawer o wybodaeth a phrofiad i'r sefydliad.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen yr adroddiad effaith sydd ynghlwm. Er bod gennym fwy i'w wneud bob amser, gobeithio y bydd yr adroddiad effaith yn cyfleu'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud.



Michael Lockwood
Cyfarwyddwr Cyffredinol

Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud

Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) yn goruchwyllo system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr ac yn gosod safonau ar gyfer sut dylai'r heddlu ymdrin â chwynion. Rydym yn sefydliad annibynnol, ac yn gwneud ein penderfyniadau yn annibynnol ar yr heddlu, y llywodraeth a grwpiau buddiant.

Rydym yn ymchwilio i'r cwynion a'r digwyddiadau mwyaf difrifol sy'n ymwneud â'r heddlu ac yn cynnal adolygiadau o ymchwiliadau'r heddlu sy'n cynnwys marwolaeth neu anaf difrifol (DSI)¹ i sicrhau bod y canlyniadau'n iawn a bod yr ymchwiliad yn briodol.

Os yw rhywun yn anfodlon â chanlyniad eu cwyn neu'r ffordd yr ymdriniwyd â'u cwyn, gallwn ystyried eu cais am adolygiad neu apel.

Rydym yn defnyddio'r dysgu o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona ac yn gwneud argymhellion yn dilyn ein hymchwiliadau, adolygiadau ac apeliadau.

Mae heddluoedd arbenigol megis Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yr Heddlu Niwclear Sifil a Heddlu Trafnidiaeth Prydain, hefyd yn dod o dan awdurdod yr IOPC hefyd. Yn ogystal, rydym yn goruchwyllo'r system gwynion ar gyfer sefydliadau eraill, megis Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, a'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur.

Rydym yn ymchwilio i gwynion difrifol penodol a materion ymddygiad yn ymwneud â staff gan y sefydliadau hyn. Rydym hefyd yn ymchwilio i honiadau troseddol yn erbyn comisiynwyr yr heddlu a throseddu, eu dirprwyon a chontractwyr sy'n gweithio i'r heddlu.

Mae ein gwaith yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau gwelliannau mewn plismona trwy sicrhau bod yr heddlu'n atebol am eu gweithredoedd a bod gwersi yn cael eu dysgu, boed hynny o un gŵyn neu ddigwyddiad, neu trwy edrych ar faterion systemig. Gallwch ddarllen am yr argymhellion a wnawn, crynodebau o'n hymchwiliadau, a'n cyhoeddiadau ar ein gwefan.

¹ Rhaid i bob mater marwolaeth neu anaf difrifol (DSI) sy'n ymwneud â swyddogion heddlu/staff yr heddlu gael eu cyfeirio at yr IOPC. Os penderfynir y bydd yn destun ymchwiliad lleol, a bod penderfyniad yn cael ei wneud gan yr awdurdod priodol nad oedd tystiolaeth o droseddoldeb, nac arwydd o ymddygiad sy'n cyfiawnhau achos disgyblu, rhaid i'r swyddog ymchwilio anfon copi o'r adroddiad terfynol at yr IOPC i'w adolygu.

Gwneud gwahaniaeth trwy atebolrwydd a dysgu

Gwella'r system gwynion

ERS
ein sefydlu yn
2018

1895
o ymchwiliadau
wedi'u cwblhau

2020/
2021

91% o ymchwiliadau
craidd wedi'u
cwblhau cyn pen
12 mis

460
o ymchwiliadau wedi'u
cwblhau



325 o apeliadau
wedi'u cynnal



201 o adolygiadau
wedi'u cynnal

Adnabod a rhannu dysg

408
o argymhellion dysg

216
o argymhellion dysg wedi'u gwneud

10%
o argymhellion dysg ar
gamdriniaeth ddomestig

16%
o argymhellion dysg
ar y ddalfa



95%
yn bwriadu argymhell
cylchgrawn Learning
the Lessons

Meithrin hyder ymysg y cyhoedd

Ymwybyddiaeth
pobl ifanc o'r IOPC



Hyder rhanddeiliaid yn
effeithiolrwydd yr IOPC

Hyder gan bobl Dduon,
Asiaidd ac ethnig leiafrifol
bod yr heddlu'n delio gyda
chwynion yn deg



37%

o bobl ifanc yn hyderus
bod yr heddlu'n delio
gyda chwynion yn deg



38%

o bobl ifanc yn
ymwybodol o'r IOPC


500 o alwadau i'n canolfan
gyswllt yn wythnosol



1.7m wedi mynd ar y wefan

300+ o gyfarfodydd
cymunedol



A woman with dark hair tied back and wearing glasses is looking off-camera to the left. She is in an office environment with other people blurred in the background.

“Roedd yr achos hwn yn enghraifft ysgytiol o ymddygiad rheibus, a chamddefnyddio ymddiriedaeth a safle... Mae ymddygiad o’r fath yn gyfystyr â llygrëdd difrifol ac nid oes gan y rhai sy’n cam-drin eu safle at bwrpas rhywiol ac sy’n ecsbloetio pobl ifanc unrhyw le mewn plismona.”

Graham Beesley, Cyfarwyddwr Rhanbarthol yr IOPS, yn trafod ymchwiliad i ymddygiad yr heddlu

BLAENORIAETH



Gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu

Byddwn yn gweithio i wella pob rhan o'r system gwynion – ein gwaith ein hunain a'r hyn sy'n cael ei gyflawni gan eraill – fel ei bod yn cyflawni deilliannau sy'n ddiduedd, yn deg ac yn seiliedig ar dystiolaeth yn brydlon ac yn gyson.

Rydym yn gyfrifol am oruchwyllo system gwynion yr heddlu. Rydym yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod:

- cwynion yn cael eu trin yn rhesymol ac yn gymesur
- swyddogion heddlu a staff yr heddlu yn cael eu dwyn i gyfrif
- gwasanaeth yr heddlu yn dysgu ac arferion plismona yn gwella

Mae system gwynion effeithiol, sy'n mynnu hyder y cyhoedd, yn rhan hanfodol o'r model o blismona trwy gydsyniad. Rhoddir pwerau sylweddol i'r heddlu, ac mae'r system gwynion yn darparu cydbwysedd pwysig trwy sicrhau bod yr heddlu yn atebol am eu gweithredoedd.

Mae ein gwaith yn helpu i sicrhau atebolrwydd, ac yn rhoi dealltwriaeth unigryw i sut mae prosesau a gweithdrefnau'r heddlu yn gweithio. Rydym yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gyflwyno newid a gwelliannau i helpu i wella hyder y cyhoedd yn yr heddlu.


Ein hymchwiliadau

Rydym yn ymchwilio i'r digwyddiadau a'r honiadau mwyaf difrifol a sensitif yn ymwneud â'r heddlu. Yn gyfreithiol, rhaid i'r heddlu atgyfeirio cwynion a digwyddiadau penodol atom ni. Rydym yn penderfynu a yw ymchwiliad yn hanfodol ac, os felly, pa lefel o gyfranogiad y dylem ni ei chael yn yr ymchwiliad hwnnw.

Gallwn gynnal ein hymchwiliad annibynnol ein hunain, rhoi cyfarwyddyd i'r heddlu i gynnal ymchwiliad dan ein rheolaeth, neu benderfynu y gallai'r heddlu ddelio â'r mater yn lleol. Y llynedd, cawsom 4,674 o atgyfeiriadau gan luoedd - cynnydd o 7% ar 2019/20. Er gwaethaf y cynnydd hwn, gwnaethom benderfynu ar y dull ymchwilio o fewn ein targed o dri diwrnod gwaith mewn 82% o'r achosion.

Yn 2020/21, gwnaethom ganolbwyntio ar wella faint o amser mae ein hymchwiliadau yn cymryd. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddechrau 465 o ymchwiliadau annibynnol a chwblhau 460 ohonynt. Mae nifer yr ymchwiliadau yr ydym yn eu cynnal wedi lleihau wrth inni ymgymryd ag achosion cynyddol gymhleth sy'n cymryd mwy o adnoddau, ac oherwydd effeithiau'r pandemig. Wrth ddewis achosion, rydym hefyd yn ystyried a

Atgyfeiriadau a dderbyniwyd bob blwyddyn



oes yna gyfleoedd ar gyfer dysgu neu a oes posibil nodi arfer da.


Gwnaethom gwblhau 91% o'n hymchwiliadau craidd o fewn 12 mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr - mae'r rhain yn achosion ar raddfa fawr neu'n fwy cymhleth fel ein hymchwiliad i Hillsborough). Mae hyn yn cymharu ag 83% yn 2019/20, 82% yn 2018/19 a 69% yn 2017/18. Gwnaethom gwblhau 86% o'n hymchwiliadau (gan gynnwys ymchwiliadau mawr) o fewn 12 mis.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i gynnal ymchwiliadau o bwys cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys ein hymchwiliad i ymddygiad yr heddlu ar ôl trychineb Hillsborough a arweiniodd at yr achos troseddol a gynhaliwyd ar ddechrau 2021.

Mae ein gwaith Ymgyrch Linden sy'n edrych ar weithredoedd yr heddlu yn dilyn honiadau hanesyddol o gam-drin plant yn rhywiol yn Rotherham bellach wedi cwblhau 91 o ymchwiliadau. Rydym yn aros i Heddlu De Swydd Efrog drefnu gwrandawriad ymddygiad ar gyfer un o'r swyddogion oedd ynghlwm cyn i ni gyhoeddi ein hadroddiad terfynol.

Ymchwiliadau annibynnol wedi'u cwblhau

(heb gynnwys ymchwiliadau mawr)



Ffynhonnell: Ystadegau perfformiad yr IOPC

ASTUDIAETHAU ACHOS

Cipolwg ar rai o'n hymchwiliadau

Rhannu negeseuon amhriodol yn arwain at rybuddion ysgrifenedig

Cafodd pum swyddog a anfonodd negeseuon testun hiliol, gwreig-gasaol a homoffobig rybuddion ysgrifenedig ar ôl gwrandawriad camymddwyn annibynnol.

Roedd y negeseuon yn awgrymu bod un swyddog wedi ceisio sefydlu perthynas amhriodol ag aelod o'r cyhoedd benywaidd, agored i niwed, yr oedd wedi cwrdd â hi tra ar ddyletswydd. Roedd ei ffôn symudol hefyd yn cynnwys fideos a ffeiliau sain wedi'u gwneud o ryngweithio rhwng yr heddlu ag aelodau o'r cyhoedd a recordiwyd ar ddyfais bersonol heb yn wybod iddynt a heb eu caniatâd.

Camddefnyddio safle yn arwain at ddedfryd carchar

Ym mis Rhagfyr 2020, dedfrydwyd swyddog gyda Heddlu Swydd Hertford i chwe blynedd a hanner yn y carchar ar ôl iddo ei gael yn euog o ddau gyhuddiad o weithgaredd rhywiol treiddiol gyda phlentyn yn dilyn ein hymchwiliad.

Roedd ei ddioddefwr wedi bod yn cymryd rhan mewn rhaglen cadetiaid yr heddlu tra bod y rhingyll yr heddlu yn arweinydd cadetiaid ac roedd y cyswllt yn cynnwys gweithgaredd rhywiol mewn cyfarfodydd cadetiaid, ar wyliau i gadetiaid ac yng nghyfeiriad cartref y swyddog.

Yn ystod yr ymchwiliad, a reolwyd gan yr IOPC ond a gynhaliwyd gan Heddlu Swydd Hertford, amlygwyd diffygion wrth reoli cofnodion cadetiaid yr heddlu a arweiniodd atom yn gwneud argymhellion dysgu lleol a chenedlaethol i amddiffyn pobl ifanc yn well yn y dyfodol.

Gorchymyn cymunedol yn dilyn ymosodiad ar berson ifanc yn y ddalfa

Cafwyd swyddog yn euog a rhoddwyd gorchymyn cymunedol iddo wneud 200 awr o waith di-dâl ar ôl i ni ymchwilio i ddigwyddiad lle ymosododd rhingyll heddlu ar fachgen 16 oed a oedd yn nalfa'r heddlu.

Tarodd y rhingyll y plentyn ar ei wyneb ac yna tynnu ei ddillad, a'i adael yn noeth nes i swyddog y ddalfa ddod i mewn i'r gell i'w gynorthwyo. Gwnaethom anfon ffeil o dystiolaeth i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a wnaeth ein hawdurdodi i gyhuddo'r swyddog o guro plentyn.

Dim achos i'w ateb ar ôl cwyn o broffilio hiliol

Gwnaethom ymgymryd ag ymchwiliad ar ôl i gŵyn o broffilio hiliol gael ei wneud yn erbyn swyddog heddlu a stopiodd a chwestiynodd person yn ei gar.

Er bod y dystiolaeth yn dangos bod yr achwynydd wedi'i stopio'n annheg oherwydd bod y swyddog wedi dibynnu ar wybodaeth nad oedd yn gyfredol nac yn benodol i'r sefyllfa, derbyniwyd bod y swyddog wedi gweithredu'n ddidwyll at ddiben plismona cyfreithlon. Ymddiheurodd y swyddog am y gofid a achoswyd a chydabod y gallai fod wedi rhoi esboniad mwy clir ar y pryd.

Ni chanfuom unrhyw achos i'w ateb am gamymddwyn a gwnaethom argymell y dylai'r swyddog fyfrio ar y digwyddiad hwn a chryfder y wybodaeth a oedd yn cyfiawnhau stopio'r gyrrwr. Gwnaethom argymell bod yn rhaid i'r swyddog ystyried sut y gallai ei weithredoedd effeithio'n anghymesur ar

ddynion Du, pam y gellid ystyried bod stopio'r gyrrwr yn wahaniaethol, yr effaith a gafodd y digwyddiad hwn ar yr unigolyn dan sylw a'r effaith y gallai ei chael ar hyder mewn plismona. Cafodd y swyddog hefyd hyfforddiant ychwanegol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

“Gwnaethom argymell bod yn rhaid i'r swyddog ystyried sut y gallai ei weithredoedd effeithio'n anghymesur ar ddynion Du, pam y gellid ystyried bod stopio'r gyrrwr yn wahaniaethol, a'r effaith a gafodd y digwyddiad hwn ar yr unigolyn dan sylw.”

Ein gwaith ar apeliadau ac adolygiadau

Mae agwedd allweddol o'n gwaith yn cynnwys adolygu'r ffordd y mae lluoedd yn delio â chwynion. Mae mwyafrif y cwynion yn cael eu trin yn lleol gan heddluoedd. Fodd bynnag, pan nad yw rhywun yn hapus â'r ffordd gwnaeth yr heddlu ymdrin â'u cwyn, mae ganddynt hawl i ofyn am adolygiad. Rydym yn asesu a oedd canlyniad eu cwyn yn rhesymol a chymesur. Os na, gallwn ofyn i'r heddlu ail-edrych ar y gŵyn.

Canlyniadau posibl adolygiad ymchwiliad a gadarnhawyd yw y gall yr IOPC:

- wneud ein darganfyddiadau ein hunain
- gofyn i'r gŵyn gael ei hail-ymchwilio
- gwneud argymhelliad ynghylch a oes gan berson achos i'w ateb neu a oedd ei berfformiad yn foddhaol
- argymhell bod achos disgyblu yn cael ei gynnal neu ei addasu

Gallwn hefyd wneud argymhellion i wella arfer yr heddlu. Gwnaethom 39 argymhelliad gan ddefnyddio'r pŵer hwn yn ystod y flwyddyn.

Ar 1 Chwefror 2020, cyflwynwyd newidiadau deddfwriaethol i system gwynion yr heddlu. Bu i ni ddadlau ers amser maith y dylid diwygio'r system gwynion oherwydd pryderon ei bod yn gymhleth, anodd ei deall ac anodd ei defnyddio. Nod y newidiadau yw symleiddio'r system gwynion, gwneud hi'n haws ei llywio a sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn fwy cyflym ac effeithiol.

Bydd yn cymryd amser i weld effaith lawn y diwygiadau ond rydym yn gweld tystiolaeth o fynediad gwell i'r system gwynion a chwynion yn cael eu trin yn dda, ac yn parhau i fod yn hyderus y bydd ein pwerau newydd yn arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth.

O dan y system apelio mae ein gwaith yn golygu bod:

- mewn 53 o achosion, cofnodwyd ac ymdriniwyd â chwynion pobl o dan system gwynion yr heddlu, na fyddent wedi'u cofnodi heb apel i'r IOPC. Rhoddodd hyn yr hawl iddynt gael trin eu cwynion mewn ffordd benodol o dan ddeddfwriaeth gwynion yr heddlu
- mewn wyth achos, cafodd pobl ganlyniad gwahanol i'r un a gawsant pan ddefnyddiodd yr heddlu benderfyniad lleol i ddatrys eu cŵyn
- mewn 253 o achosion, cafodd pobl ail ymchwiliad i'w cwyn gan yr heddlu neu'r IOPC a chawsant ganlyniad gwahanol i'r un a gawsant pan gynhaliwyd ymchwiliad cychwynnol i'w cwyn.

O dan y system adolygu:


- mewn 88 achos, gwelsom nad oedd cwynion pobl yn cael eu trin mewn ffordd resymol a chymesur yn dilyn ymchwiliad
- mewn 113 achos, gwelsom nad oedd cwynion pobl yn cael eu trin mewn ffordd resymol a chymesur wrth gael eu trin heb ymchwiliad

Yn dilyn newidiadau i ddeddfwriaeth, gall yr IOPC argymhell mesurau i unioni cwynion. Gellir argymhell datrysiad yn dilyn adolygiad neu ymchwiliad i gŵyn annibynnol neu gyfeiriedig. Mae'r datrysiadau y gall yr IOPC eu hargymhell yn cynnwys ymddiheuriad neu ddychwelyd eiddo i achwynydd neu ymarfer myfyriol i'r swyddog heddlu.

Gwnaeth ein hapeliadau ac adolygiadau ganfod:

- nid oedd canfyddiadau ymchwiliad yr heddlu yn briodol
- dylai'r achwynydd wedi cael rhagor o wybodaeth
- roedd gan swyddogion achos i'w hateb am gamymddygiad neu gamymddwyn difrifol
- dylai fod yr heddlu wedi gofyn i Wasanaeth Erlyn y Goron i benderfynu a ddylid erlyn swyddog ai peidio
- nid oedd y camau gweithredu (neu ddiffyg camau gweithredu) yr oedd yr heddlu wedi bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r gŵyn yn briodol

Yn ystod y flwyddyn bu i ni ddelio gyda



Bu i ni gynnal

1/3

Golygodd hyn ein bod wedi cyrraedd canlyniad gwahanol ar gyfer achwynwyr mewn traean o'n hachosion.

² Fel y corff apelio perthnasol, mae'n rhaid i ni asesu p'un a oedd yr apêl yn ddilys cyn y gallwn ei hystyried. Mae yna nifer o resymau pam y gellid barnu bod apêl yn annilys.

³ Mae p'un a yw cais yn cael ei drin fel apêl neu adolygiad yn dibynnu ar y dyddiad y gwnaed y gŵyn. Mae'r hawl i apêl yn berthnasol cyn 1 Chwefror 2020 ac mae'r hawl i adolygiad yn berthnasol o 1 Chwefror 2020.

ASTUDIAETH ACHOS

Adolygiad i arestio a hawliau

Gwnaethom gynnal adolygiad i berson a gafodd ei arestio a'i gludo i'r ddalfa. Roedd rhingyll y ddalfa o'r farn fod yr unigolyn yn ceisio rhwystro gweithdrefnau dalfa oherwydd nad oedd yn siarad a'i fod yn anghydweithredol ond yn cydymffurfio â cheisiadau fel "safa yna". Nid oedd yna unrhyw wybodaeth am y person ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu. Cafodd yr unigolyn ei noeth-chwilio a'i roi mewn cell.

Ar ôl i sifft newydd ddechrau, penderfynodd y rhingyll y ddalfa oedd newydd gyrraedd bod yr unigolyn angen asesiad meddygol ac oedolyn⁴ priodol yn bresennol. Pan roddwyd deunyddiau ysgrifennu i'r unigolyn, dywedodd ei fod yn awtistig a ddim yn siarad.

Sicrhodd yr ail ringyll y ddalfa fod yr unigolyn yn cael ei hawliau dyledus yn ôl ei fregusrwydd ac yn y pendraw cafodd yr unigolyn ei ryddhau dan ymchwiliad.

Yn ei gais am adolygiad, nododd yr unigolyn ei fod yn credu nad oedd y rhingyll y ddalfa cyntaf wedi defnyddio fframwaith asesu bregusrwydd yr heddlu a'i fod am iddynt gynnal hyfforddiant pellach.

Fel rhan o'n gallu newydd i awgrymu atebion ar gyfer cwynion, gwnaethom ofyn i'r heddlu ystyried arfer myfyriol, a ddigwyddodd ac a arweiniodd at ddysgu i'r swyddog.

Fel rhan o'n gallu newydd i awgrymu camau unioni, gwnaethom ofyn i'r heddlu ystyried ymarfer myfyriol. Digwyddodd hyn ac arweiniodd at ddysgu i'r swyddog.

⁴ Rôl yr oedolyn priodol yw diogelu buddiannau, hawliau a lles plant a phobl agored i niwed yr amheuir eu bod wedi cyflawni trosedd, trwy sicrhau eu bod yn cael eu trin mewn modd teg a chyfiawn ac yn gallu cymryd rhan yn effeithiol.

Gweithio gyda heddluoedd i wella'r system gwynion

Rydym yn gweithio gyda heddluoedd i'w helpu i wella'r ffordd y maen nhw'n delio â chwynion.

Ym mis Chwefror 2020, gwnaed newidiadau i system gwynion yr heddlu er mwyn symud i system gwynion symlach, mwy effeithiol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom weithio gyda heddluoedd i'w helpu i ddeall y newidiadau i'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion a sut i'w rhoi ar waith trwy gefnogaeth reolaidd.

Fe wnaethom drefnu cyfres o weithdai ar gyfer rhai sy'n ymdrin â chwynion yr heddlu a chyrrff plismona lleol⁵ (LPB) i atgyfnerthu ein disgwyliadau ar gyfer y system gwynion newydd a hyrwyddo ffordd fwy hyblyg o ddelio â chwynion.

Amlygodd y gweithdai'r ffocws cynyddol ar ddeall pryderon achwynydd, mabwysiadu dull hyblyg ac ymateb i amgylchiadau unigol wrth ymdrin â chwyn. Rhoddodd hyn gyfle i ni drafod ymdrin ag adolygiadau, rhannu dysgu ac arferion da ac i hyrwyddo cysondeb wrth ymdrin ag adolygiadau.

Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod y diwygiadau i'r system gwynion yn gweithio, gyda heddluoedd yn cael eu gyrru'n llai gan broses, yn fwy ymatebol, yn darparu mwy o esboniadau ac yn ceisio canlyniadau mwy hyblyg. Mae disodli amrywiol brosesau gyda gofyniad am drin rhesymol a chymesur wedi arwain at y nifer y cwynion a gofnodwyd ac yr ymchwiliwyd iddynt o dan broses ffurfiol


Atodlen 3 yn gostwng o 40% i 3% dros naw mis cyntaf 2020/21.

Trwy ein gwaith casglu data ar adolygiadau, ymchwiliadau a chwynion cenedlaethol rydym yn rhannu'r dysgu a nodwyd gyda heddluoedd i gefnogi nodau ehangach y diwygiadau a gwella arfer yr heddlu.

“Roedd y gweithdy yn ardderchog. Roedd gan staff yr IOPC wybodaeth fanwl ac roedd yr astudiaethau achos yn grymuso'r dysgu ac yn ddefnyddiol iawn. Rwy'n meddwl mai dyma'r gweithdy gorau i mi fynd iddo o ran rhannu syniadau a dysgu, hoffwn ddiolch i chi am eich amser a'ch ymdrech”

Aelod dienw o'r gweithdy

⁵ Mae corff plismona lleol yn derm ar y cyd am: Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddau (parthed Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan), y Cyngor Cyffredin (parthed Heddlu Dinas Llundain) ac unrhyw faer arall awdurdod cyfunol sy'n cyflawni swyddogaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.



CITY OF LONDON
POLICE

“Rwy’n croesawu adolygiad Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i’r defnydd o stopio a chwilio yn Llundain. Mae’n gwbl hanfodol bod ein gwasanaeth heddlu yn cadw hyder a ffydd y cymunedau y mae’n eu gwasanaethu.”

Sadiq Khan, Maer Llundain

Ffynhonnell: Sesiwn Holi'r Maer, 18 Mawrth 2021

BLAENORIAETH



Gwella plismona trwy adnabod a rhannu gwersi a ddysgwyd trwy ein gwaith

Byddwn yn canolbwyntio ein gwaith ar feysydd sy'n peri pryder i'r cyhoedd a'r heddlu ac yn gweithio gyda phartneriaid i rannu ein dysg i wella plismona a diogelu'r cyhoedd rhag niwed.

Er bod y rhan fwyaf o'r cwynion, ymchwiliadau ac apeliadau yn canolbwyntio ar achosion unigol, gallant hefyd gael effaith ehangach o lawer lle'r ydym ni'n canfod bod angen dysg neu welliant ar lefel sefydliadol neu genedlaethol.

Gall ein hargymhellion ddod â newidiadau i blismona a diogelu aelodau'r cyhoedd a'r heddlu trwy:

- atal digwyddiadau cyffelyb lle mae rhywbeth wedi mynd o'i le
- codi ymwybyddiaeth o fylchau mewn polisi neu hyfforddiant
- tynnu sylw at broblemau gydag offer, systemau neu arferion
- annog lluoedd i fabwysiadu arferion da


Mae'r dysgu a wneir mewn ymateb i ddysgu, yn y pendraw, yn gwella plismona i bawb, gan adeiladu hyder a diogelu'r cyhoedd rhag niwed.

Argymhellion dysgu sefydliadol

Argymhellion dysgu a wnaed gan yr IOPC

Rydym yn adnabod a rhannu dysgu o'n gwaith ar ymchwiliadau, adolygiadau ac apeliadau. Rydym yn gwneud argymhellion dysgu i sicrhau os yw pethau'n mynd o chwith, bod gwersi'n cael eu dysgu a pholisïau ac arfer yn newid, os yw'n briodol.


Mae ein hargymhellion yn cael effaith sylweddol pan welwn fod angen dysgu neu wella ar lefel sefydliadol neu genedlaethol.



Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom 216 o argymhellion i heddluoedd o dan adran 28A o Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*:

- 185 o argymhellion wedi'u gwneud i heddluoedd lleol
- 31 argymhelliad wedi'u targedu at bob heddlu neu sefydliad cenedlaethol fel Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) a'r Coleg Plismona (CoP)
- 150 o argymhellion ynglŷn â pholisi neu ganllawiau
- 40 o argymhellion ynglŷn â hyfforddiant i swyddogion heddlu a staff yr heddlu
- 26 o argymhellion ynghylch materion eraill yn cynnwys y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, ffonau symudol, rheoli digwyddiadau a storio tystiolaeth.

Argymhellion dysgu a wnaed gan yr IOPC yn ôl thema 2020/21



*Roedd 'arall' yn cynnwys argymhellion yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol; hunan-niweidio; storio tystiolaeth, rheoli digwyddiadau a'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.

Sut ydym yn defnyddio ein dysg o'n gwaith

Y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus

- I ddatblygu a bwydo deddfwriaeth newydd ynghylch plismona a system gwynion yr heddlu.
- I fwydo polisi a deddfwriaeth mewn sectorau eraill - e.e. iechyd, carchardai, systemau'r goron, iechyd a diogelwch.

Sefydliadau cymunedol a gwirfoddol

- I sicrhau bod heddluoedd yn atebol pan fydd gwelliannau angenrheidiol wedi'u hadnabod.
- I ddeall sut fyddai'r ffordd orau i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth yn system gwynion yr heddlu.

Gwasanaeth yr heddlu

- I helpu i ddiogelu'r cyhoedd a'r heddlu er mwyn atal rhywbeth aeth o'i le rhag digwydd eto.
- I wella ymarfer, polisi, canllaw, hyfforddiant, offer a systemau'r heddlu.
- I wella'r dull o ddelio gyda chwynion, materion ymddygiad a marwolaethau ac anafiadau difrifol sy'n ymwneud â'r heddlu.

Heddluoedd rhyngwladol a chyrrff goruchwyllo

- I wella ymarfer plismona, gwella dulliau goruchwyllo a chefnogi hawliau dynol mewn gwledydd eraill.

Cyrrff plismona

- I fwydo polisi cenedlaethol, canllawiau a hyfforddiant a ddarperir gan y Coleg Plismona.
- I fwydo archwiliadau heddluoedd a chyfleusterau dalfeydd
- I sicrhau bod heddluoedd yn atebol pan fydd gwelliannau angenrheidiol wedi'u hadnabod.

Academyddion a chyrrff ymchwil

- I fwydo ymchwil a datblygiad gwyddonol.

ASTUDIAETH ACHOS

Iechyd meddwl a'r ddalfa

Fel rhan o'n gwaith yn goruchwyllo'r ffordd y mae heddluoedd yn delio â chwynion, fe wnaethom adolygu achos lle cafodd dyn ei arestio a'i gludo i'r ddalfa. Roedd yna nifer o farcwyr rhybudd wedi'u nodi ar gofnod dalfa'r dyn, gan gynnwys hunanladdiad a hunan-niwedio. Mae marcwyr rhybudd ar gofnodion yr heddlu'n cael eu defnyddio i roi gwybodaeth bwysig i swyddogion heddlu a staff eraill yr heddlu i fod yn ymwybodol ac i ddiogelu eu hunain a'r cyhoedd.

Gwnaeth y dyn hefyd ddatgelu hanes o salwch meddwl a'i fod yn cymryd meddyginiaeth i'w reoli. Roedd y cofnod hefyd yn nodi ei fod wedi ceisio niweidio ei hun tra yn y ddalfa sawl gwaith o'r blaen.

Tra mewn cell heddlu ceisiodd y dyn gyflawni hunanladdiad trwy ddefnyddio "spork" (math o gytleri).

Gwnaethom ddau argymhelliad, un i'r heddlu lleol ac argymhelliad cenedlaethol i Gyngor Cenedlaethol Penaeithiad yr Heddlu (NPCC) ill dau yn canolbwyntio ar y risg o adael carcharorion â mynediad i gyllyll a ffyrch heb oruchwyliaeth.

Rhannodd yr NPCC yr argymhelliad gyda'r holl brif swyddogion yng Nghymru a Lloegr a'i gynnwys yn eu cylchlythyr dalfa i'r holl heddluoedd. Gwnaeth y Gymdeithas Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol hefyd rannu'r argymhelliad yn ei chylchlythyr cenedlaethol.

Diwygiodd yr heddlu lleol ei weithdrefnau gweithredu a'i hyfforddiant safonol i gynnwys arweiniad clir ar ddarparu cytleri i garcharorion, a sut i liniaru unrhyw risgiau wrth wneud hynny.

Diwygiodd yr heddlu lleol ei weithdrefnau gweithredu a'i hyfforddiant safonol i gynnwys arweiniad clir ar ddarparu cytleri i garcharorion, a sut i liniaru unrhyw risgiau wrth wneud hynny.

Rhannu dysgu i wella arfer

Gwnaethom rannu dysgu a nodwyd o'n hadolygiadau ac ymchwiliadau mewn llawer o ffyrdd. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau, crynodebau o ymchwiliadau, datganiadau i'r cyfryngau, cylchlythyrau, briffiau a chyflwyniadau.

Rydym hefyd yn hyrwyddo dysgu trwy dynnu sylw arweinwyr yr heddlu a'n partneriaid goruchwyllo at faterion, a dylanwadu arnynt i weithredu er mwyn gwella plismona.

Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- gwnaethom alw am fwy o graffu gan gomisiynwyr yr heddlu a throseddu a'r dirprwy feiri ar gyfer plismona a throseddu ar ddefnyddio Tasers yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau a phryderon cymunedol cynyddol. Rydym wedi adolygu dros 100 o ymchwiliadau annibynnol sy'n cynnwys Taser ac ers hynny rydym wedi gwneud nifer o argymhellion mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn ein hadolygiad. Mae'r rhain yn cwmpasu hyfforddiant ac arweiniad, craffu a monitro'r defnydd o Tasers ac ymgysylltiad a mewnbwn cymunedol.

- yn dilyn nifer o ymchwiliadau i swyddogion heddlu yn postio neu'n rhannu deunydd tramgwyddus, trwy'r cyfryngau cymdeithasol, gwnaethom ysgrifennu at y NPCC, yn gofyn iddynt atgoffa heddluoedd o'u rhwymedigaethau o dan God Moeseg a Safonau Ymddygiad Proffesiynol yr heddlu. O ganlyniad, sefydlodd yr NPCC dasglu ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.

Y cylchgrawn “Learning the Lessons”


Mae ein cylchgrawn “Learning the Lessons” yn cynnwys astudiaethau achos a gwybodaeth i helpu heddluoedd ystyried a oes angen iddynt wneud newidiadau.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyhoeddi un mater ar blismona'r ffyrdd. Roedd y mater yn cynnwys dysgu ar addasrwydd gwahanol fathau o gerbydau ar gyfer ymlid troseddwy, newidiadau i lefelau awdurdodiad a'r awdurdod i gyflawni symudiadau tactegol a chanfyddiadau o arolygiadau plismona ffyrdd diweddar Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS).

Roedd hefyd yn cynnwys gwaith rhwydwaith pwnc plismona ffyrdd yr IOPC, sydd wedi helpu i lywio deddfwriaeth newydd y llywodraeth ar gyfer gyrwyr heddlu ac wedi helpu i lunio polisi'r heddlu ar gyfer ymlid tactegol.

Cafodd y cylchgrawn ei lawrlwytho 1,297 o weithiau o'n gwefan yn y tri mis yn dilyn ei gyhoeddiad.

Adborth gan ein darllenwyr



Ffynhonnell: Adborth o'r arolwg o rifyn 38 o'r cylchgrawn “Learning the Lessons” ar blismona'r ffyrdd. Cyfanswm y bobl wnaeth ymateb i'r arolwg = 23.

Dysgu thematig

Mae canolbwyntio ar y themâu sy'n bwysig i'r heddlu a'r cyhoedd yn faes allweddol o'n gwaith. Ein meysydd thematig ar hyn o bryd yw:

- cam-drin domestig
- manteisio ar safle at ddibenion rhywiol
- damweiniau traffig ffordd
- iechyd meddwl
- gwahaniaethu

Er mwyn adnabod materion a thueddiadau mewn perthynas â'r themâu hyn, rydym yn cynnal ymchwiliadau annibynnol i achosion na

fyddai fel arfer yn cwrdd â'n trothwy ar gyfer ymchwilio.

Mae hyn yn helpu i adeiladu corff o dystiolaeth i nodi materion systemig i fynd i'r afael â nhw ac arfer da y gellir ei rannu - gan helpu i sbarduno gwelliannau gwirioneddol yn arfer yr heddlu.

Y llynedd, gwnaethom lansio ein gwaith thematig ar wahaniaethu ar sail hil. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ymchwilio yn annibynnol i fwy o achosion lle mae gwahaniaethu ar sail hil yn ffactor posibl er mwyn nodi materion systemig y dylid mynd i'r afael â hwy. Ym mis Hydref 2020, gwnaethom nodi un ar ddeg o gyfleoedd i'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitan (MPS) wella'r drefn stopio a chwilio yn seiliedig ar bum ymchwiliad yn ymwneud â stopio a chwilio dynion Du.

“Mae [ein hymchwiliadau thematig i draffig ar y ffyrdd] yn chwarae rhan hanfodol wrth sefydlu'r hyn a ddigwyddodd a nodi unrhyw ddysgu i helpu i wella arfer plismona....Wrth wella arfer plismona ar y ffyrdd, rydym yn gobeithio lleihau nifer y digwyddiadau sy'n arwain at farwolaeth neu anaf difrifol.”

Steve Noonan, Arweinydd Strategol yr IOPC ar gyfer Plismona'r ffyrdd

ASTUDIAETH ACHOS

Anghymesuredd wrth stopio a chwilio

Mae tystiolaeth am anghymesuredd wrth ddefnyddio pwerau'r heddlu wedi bod yn bryder ers amser maith ac mae'n effeithio ar hyder mewn plismona, yn arbennig mewn cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig.

Nodwyd un ar ddeg o gyfleoedd i'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitan (MPS) wella'r ffordd y mae'n ymarfer pwerau stopio a chwilio ac ystyried anghymesuredd yn dilyn adolygiad o bum ymchwiliad yn ymwneud â stopio a chwilio dynion Du gan swyddogion MPS.

Gwelsom fod cyfreithlondeb stopio a chwilio yn cael ei danseilio gan:

- ddiffyg dealltwriaeth o effaith anghymesuredd
- cyfathrebu gwael
- defnydd cyson o rym wrth geisio cydweithredu
- y methiant i ddefnyddio camerâu corff o ddechrau cyswllt a

- parhau i chwilio am dystiolaeth bellach ar ôl gweld bod y sail gychwynnol dros y stopio a chwilio yn ddi-sail.

Gwnaeth y llu dderbyn ein holl argymhellion a gwneud nifer o newidiadau gan gynnwys:

- ymgorffori profiadau byw pobl Ddu a lleiafrifoedd ethnig yn eu hyfforddiant a chreu cyfres o fideos hyfforddi stopio a chwilio newydd

- gwella monitro a goruchwylio achosion o stopio a chwilio, gan gynnwys system i ganiatáu i gymunedau adolygu achosion ehangach sy'n peri pryder


- gweithredu polisi penodol ar roi pobl mewn gefynnau cyn eu harestio

Gwnaeth y dysgu a nodwyd o'n gwaith hefyd gyfrannu at gynllun gweithredu Maer Llundain sy'n canolbwyntio ar anghymesuredd pwerau'r heddlu.

“Rydym yn poeni'n fawr am y...defnydd gormodol o efynau, y defnydd amhriodol o stopio a chwilio a'r methiant i ddefnyddio camerâu corff yn iawn. [Rhaid i argymhellion yr IOPC]... nawr gael eu gweithredu'n llawn er mwyn mynd i'r afael â phlismona anghymesur ac i helpu i ailadeiladu ffydd ac ymddiriedaeth yn yr heddlu ym mhob un o'n cymunedau.”

Maer Hackney Philip Glanvilleand, y Cynghorydd Susan Fajana-Thomas, Aelod Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol

Fynhonnell: Mynd i'r afael â phlismona anghymesur: Datganiad ar adolygiad yr IOPC i stopio a chwilio (hackney.gov.uk)



“Roedd y wybodaeth a anfonoch ynghylch yr IOPC (a) sut i wneud cwyn yn ffantastig. Rwyf wedi’i defnyddio wrth roi gwybod i bobl bod ganddynt yr hawl i gwyno mewn achosion lle nad ydynt yn teimlo eu bod wedi cael gwasanaeth da/cywir.”

Rhanddeiliad IOPC

Gwella hyder y cyhoedd yn atebolrwydd yr heddlu

BLAENORIAETH



Byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid a chymunedau, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd â'r lleiaf o hyder mewn plismona, fel eu bod yn deall eu hawl i gwyno ac yn disgwyl triniaeth deg a chyfiawn wrth ymateb i gwynion a digwyddiadau difrifol.

Rydym yn gweithio gydag ystod o eang o bobl ac yn gwrando arnynt yn cynnwys y rheiny sy'n cyflwyno cwynion, teuluoedd, swyddogion a staff yr heddlu, a grwpiau cymunedol a gwirfoddol. Yn ogystal, rydym yn gweithio ar draws y system cyfiawnder troseddol i adnabod lle gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn unigol ac ar y cyd.

Mae gan ein gwaith ffocws penodol ar gynyddu hyder y rhai yr ydym yn gwybod bod ganddynt leiaf o ymddiriedaeth yn y system – er enghraifft, pobl ifanc a'r rhai o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Rydym eisiau sicrhau bod y grwpiau hyn yn deall eu hawl i gwyno a chael hyder wrth gael mynediad at y system gwynion a'i defnyddio.

Yn y pen draw, bydd y newidiadau a wneir o ganlyniad i'n gwaith a gwrando ar ein defnyddwyr gwasanaeth yn cael effaith gadarnhaol trwy wella system gwynion yr heddlu, gwella plismona a helpu i ddiogelu'r cyhoedd.


Gweithio gyda phobl ifanc

Daw pobl ifanc i gysylltiad â'r heddlu mewn llawer o wahanol amgylchiadau ac amgylcheddau a bydd pob rhyngweithiad yn cael effaith ar eu hyder mewn plismona.

Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym eu bod yn ansicr am eu hawliau a ddim yn siŵr sut i godi materion os ydynt yn anhapus am y ffordd yr oedd yr heddlu wedi delio â nhw.

Mae yna nifer o resymau posib i esbonio pam fod hyder pobl ifanc wedi dirywio. Disgwyliwn y gallai mwy o bwerau plismona yn ystod y pandemig COVID-19, llofruddiaeth George Floyd yn yr Unol Daleithiau a'r protestiadau Mae Bywydau Du o Bwys fod wedi effeithio ar farn pobl ifanc am blismona yn ystod y flwyddyn.

Pobl ifanc sy'n hyderus bod yr heddlu yn ymdrin â chwynion yn deg



“Rwyf am i'r heddlu gydnabod yr effaith negyddol y gall hyder isel ei gael ar gymdeithas os na chymerir camau i fynd i'r afael â hyder isel... Rwy'n credu mai gweithio gyda'r Panel Ieuencid yw'r cam cyntaf tuag at wneud gwahaniaeth a newid yn hyn o beth.”

Saeed Ali, aelod o'r Panel Ieuencid

Sefydlwyd ein Panel Ieuenctid yn 2018 i'n helpu i ddeall a mynd i'r afael â'r ysgogwyr hyder isel ymhlith pobl ifanc, y rhwystrau i gwyno ac i archwilio sut y gallwn gynyddu ymwybyddiaeth a hyder pobl ifanc yn system gwynion yr heddlu. Yn ystod y flwyddyn cynyddodd yr aelodaeth gydag 20 aelod newydd 16-25 oed. Mae yna tri deg saith aelod panel sydd i gyd yn dod o amrywiol gefndiroedd ledled Cymru a Lloegr. Mae bron i ddau draean o'r panel yn dod o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig.

Eleni helpodd y panel i ddatblygu a lansio canllaw newydd i gefnogi pobl ifanc i wneud cwyn a deall eu hawliau. Gwnaethant helpu

i adnabod ac egluro elfennau allweddol o'r system gwynion mewn ffyrdd sy'n hawdd i bobl ifanc eu deall. Edrychwyd ar bostiadau cyfryngau cymdeithasol a chynnwys fideo'r IOPC 7,000 o weithiau ac fe'i postiwyd hefyd ar gyfryngau cymdeithasol penodol i ieuenctid.


Rhannwyd y canllaw yn eang hefyd gyda grwpiau cynghori annibynnol, grwpiau monitro cymunedol, swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, cyrff iechyd, awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol sy'n gweithio gyda phobl ifanc a chymunedau amrywiol. Mae'r canllaw wedi cael derbyniad da gan randdeiliaid sy'n gwerthfawrogi ei fod yn fyr, yn addysgiadol ac yn hawdd ei rannu â phobl

ifanc ac ar draws eu rhwydweithiau.

Cynhyrchwyd canllaw yn cynnwys awgrymiadau a chynghorion wrth weithio gyda phobl ifanc a chafodd ei ddosbarthu i'r holl heddluoedd ledled Cymru a Lloegr.

Gweithiodd y panel hefyd i helpu i wella arferion plismona sy'n effeithio'n anghymesur ar gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd ethnig fel aelod o Swyddfa Plismona a Throseddau Maer Llundain (MOPAC) a gweithgor yr MPS ar ddefnyddio grym.

Yn ogystal â gweithio gyda'r IOPC, bu'r panel yn gweithio gydag Leaders Unlocked ar arolwg 'Plismona'r pandemig', a gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) a'r NPCC i greu dau ganllaw i rai dan 18 oed yn ystod y pandemig COVID-19. Mae'r canllawiau'n helpu pobl ifanc a phlant i ddeall eu hawliau os ydyn nhw'n dod i gysylltiad â'r heddlu yn ystod y pandemig a sut i wneud cwyn os ydyn nhw'n teimlo nad ydyn nhw'n cael eu trin yn deg. Gwnaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) ddosbarthu'r canllaw i dros 3,000 o'u rhanddeiliaid, yn cynnwys yr holl dimau troseddau ieuenctid.



Ffynhonnell: Traciwr Canfyddiadau'r Cyhoedd yr IOPC

6 Roedd yna newid i eiriad y cwestiwn a ofynnwyd yn 2019/20.

Codi ymwybyddiaeth o'r IOPC

Mae deall ein rôl yn rhan bwysig o ddatblygu hyder yn y system gwynion ac rydym yn gweithio'n galed i wella hyn trwy gyfathrebu ac ymgysylltu gwell.


Rydym yn rhannu gwybodaeth trwy ein gwefan, y cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, adroddiadau a chyhoeddiadau, gan gyrraedd miliynau o bobl bob blwyddyn. Mae sylw yn y cyfryngau yn ein helpu i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith. Y llynedd gwnaethom gyhoeddi 198 o

ddatganiadau cyfryngau am ymchwiliadau a'n gwaith a sicrhau sawl stori dudalen flaen mewn papurau newydd cenedlaethol, gan gyrraedd miliynau o bobl ledled y wlad.

Ymhlith yr adroddiadau allweddol a gyhoeddwyd roedd adroddiad blynyddol ar farwolaethau yn ystod neu ar ôl cyswllt gyda'r heddlu, ystadegau chwarterol a blynyddol ar gwynion yr heddlu ar lefel heddlu lleol a chenedlaethol ac adroddiadau a chrynodebau ymchwilio.


Gydag adroddiadau am gam-drin domestig yn cynyddu yn ystod y cyfnod clo COVID-19 (yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol), fe wnaethom ail-lansio ein hymgyrch 'Cael eich Clywed' yn hyrwyddo'r system Ateb Tawel. Mae'r system hon, sy'n cael ei goruchwyllo gan yr NPCC, yn galluogi galwr 999 ar ffôn symudol nad yw'n gallu gwneud sŵn na siarad, bwysu 55 pan ofynnir iddo hysbysu'r heddlu ei fod mewn argyfwng go iawn.

Ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r IOPC - “A ydych wedi clywed am yr IOPC (Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu)?”



Ffynhonnell: Traciwr Canfyddiadau'r Cyhoedd yr IOPC

Hyder y cyhoedd yn yr IOPC - “Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi fod yr IOPC yn gwneud gwaith da?”



Ffynhonnell: Traciwr Canfyddiadau'r Cyhoedd yr IOPC

Gyda chefnogaeth yr NPCC, Cymorth i Fenywod a Chymorth i Fenywod Cymru, gwnaethom rannu graffigwaith wedi'i ddiweddarau gyda'r heddluoedd, elusennau cam-drin domestig ac awdurdodau llywodraeth leol. Gwnaeth yr ymgyrch ddenu sylw gan y cyfryngau, cafodd ei rannu'n genedlaethol a chafodd 164,000 o argraffiadau Twitter.

“...rydym yn croesawu'r tryloywder y mae adroddiad yr IOPC yn ei ddarparu ar farwolaethau yn dilyn cyswllt â'r heddlu. Mae marwolaethau yn y ddalfa yn cael eu cymryd o ddifrif ac yn destun adolygiad annibynnol gan yr IOPC yng Nghymru a Lloegr. Mae ystadegau heddiw yn tynnu sylw at nifer o dueddiadau, gydag iechyd meddwl ac alcohol a chamddefnyddio sylweddau yn ffactorau arwyddocaol yn y marwolaethau anffodus yn nalfa'r heddlu ac ar ôl bod yn nalfa'r heddlu.”

Matthew Scott, Arweinydd Iechyd Meddwl a'r Ddalfa, Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd (APCC), Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) Gaint, a'r Dirprwy Arweinydd, Martyn Underhill, PCC Dorset, yn ymateb i adroddiad Marwolaethau'n Dilyn Cyswllt â'r Heddlu 2019/20 yr IOPC, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020.



Deliodd ein Canolfan Cyswllt Cwsmer gyda dros

500

o alwadau bob wythnos

gan roi cyngor a chanllaw i'r cyhoedd am system gwynion yr heddlu



Gweithio gyda phobl o gymunedau amrywiol

Mae gwrando ar randdeiliaid a chymunedau yn rhan allweddol o'n gwaith i gynyddu ein dealltwriaeth o'r cymunedau a wasanaethwn. Yn y flwyddyn ddiwethaf, er gwaethaf heriau'r pandemig, gwnaethom roi mwy o bwyslais ar weithio gyda phobl o gymunedau amrywiol. Mae meithrin ymddiriedaeth a hyder ar gyfer pob grŵp ond yn enwedig grwpiau sydd â'r lefelau isaf o ymddiriedaeth mewn plismona a'r system gwynion yn hanfodol mewn cymdeithas lle rydym ni'n plismona trwy gydsyniad. Mae ein gwaith gyda gwahanol

grwpiau cymunedol yn helpu i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn eang.

Trwy gydol y flwyddyn gwahaniaethu oedd thema fwyaf nodedig y drafodaeth, yn enwedig gwahaniaethu ar sail hil ac roedd pryderon cynyddol am y defnydd anghymesur o rai o bwerau'r heddlu ar bobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig y defnydd o Tasers a stopio a chwilio.

Gwnaethom estyn allan at wahanol grwpiau cymunedol i wrando ar eu pryderon a sicrhau


bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn eang ac annog comisiynwyr yr heddlu a throddu a'r gwasanaeth heddlu ehangach i wneud yr un peth.

Ym mis Medi 2020, gwnaethom lansio ein ffocws thematig ar wahaniaethu ar sail hil. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys canolbwyntio ar rywbeth sy'n peri pryder mawr i'r cyhoedd i nodi unrhyw faterion systemig y mae angen rhoi sylw iddynt i wella arferion plismona.

Pobl o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig sy'n hyderus bod yr heddlu yn delio â chwynion yn deg


2018/19

38%




2019/20

41%



2020/21

41%



“Ni all ein heddluoedd blismona’n effeithiol heb ymddiriedaeth a hyder y gymuned maen nhw’n ei wasanaethu. Bydd cael goruchwyliaeth annibynnol a sylfaen dystiolaeth sy’n helpu'r heddlu i ddysgu a gwella lle bo angen yn helpu i fagu hyder y gymuned honno.”

Cyfarwyddwr Cyffredinol yr IOPC – Michael Lockwood

Rydym nawr yn canolbwyntio ar ymchwilio i fwy o achosion lle mae yna arwydd bod anghymesuredd yn effeithio ar gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys stopio a chwilio a defnyddio grym. Byddwn hefyd yn ymchwilio i fwy o achosion lle mae dioddefwyr o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig wedi teimlo eu bod wedi cael eu trin yn annheg gan yr heddlu.

Mae cynyddu ein ffocws ar ymchwilio i achosion lle gallai gwahaniaethu ar sail hil fod yn ffactor yn golygu y byddwn yn gallu edrych o ddifrif ar y cysylltiadau hyn rhwng yr heddlu a'r cyhoedd i nodi unrhyw themâu. Yna byddwn yn gallu gweld a oes angen newid polisi neu arfer plismona.

Yn ystod y flwyddyn roedd yna gynnydd nodedig mewn achosion gwahaniaethu ar sail hil, yn mynd yn ôl i cyn lansio'r thema.

Yn ystod 2020/21, cawsom 233 o atgyfeiriadau lle cofnodwyd gwahaniaethu ar sail hil fel ffactor, cynnydd o 22% ar y flwyddyn flaenorol lle cafwyd 191 o atgyfeiriadau gwahaniaethu ar sail hil. Roedd atgyfeiriadau gwahaniaethu ar sail hil yn cyfrif am 5% o'r holl atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

Roedd y cynnydd hwn mewn atgyfeiriadau gwahaniaethu ar sail hil a dderbyniwyd ac ymchwiliadau a ddechreuwyd trwy gydol gwanwyn a haf 2020, yn cyd-daro â'r ffocws

o'r newydd ar faterion gwahaniaethu ar sail hil a phlismona, yn enwedig yn dilyn marwolaeth George Floyd a'r protestiadau Mae Bywydau Du o Bwys dilynol.

Yn 2020/21 fe ddechreuom 53 o ymchwiliadau annibynnol yn cynnwys gwahaniaethu ar sail hil, nad oeddynt yn rhan o'r gwaith craidd y byddem fel arfer yn ei wneud. Mae hyn yn ein helpu i adeiladu ein corff o dystiolaeth i nodi unrhyw faterion systemig sydd angen mynd i'r afael â nhw.

Gweithio gyda rhanddeiliaid

Rydym yn rhoi gwerth uchel ar ymgysylltu a gwrando ar randdeiliaid o sefydliadau plismona, gwirfoddol, cymunedol ac eiriolaeth sy'n cynrychioli achwynwyr, neu'r rhai sydd â'r hyder isaf yn system gwynion yr heddlu.

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau megis y Coleg Plismona (CoP) a'r Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) i rannu dysgu a gweithio ar feysydd a themâu allweddol sy'n dod i'r golwg o'n gwaith.

Er enghraifft, yn dilyn un o'n hymchwiliadau, gwnaethom nodi cyfle ar gyfer dysgu cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant swyddogion heddlu i wella'r ffordd y mae swyddogion yn delio â phobl sy'n sâl neu'n dioddef argyfwng meddygol. Buom yn gweithio gyda'r CoP a'r NPCC ac mae'r dysgu a nodwyd

gennym o'r digwyddiad wedi arwain at ddiweddarau hyfforddiant ar gyfer swyddogion a'r cwricwlwm cenedlaethol cyfredol ar gyfer myfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn swyddogion heddlu, cwnstabliaid gwirfoddol a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliom dros 300 o gyfarfodydd cymunedol o grwpiau cynghori annibynnol i lywodraeth leol, grwpiau crefyddol, ysgolion, grwpiau cymunedol ac eiriolaeth.

Gwnaethom hyfforddi dros 100 o weithwyr achos rheng flaen ym maes Cymorth i Ddioddefwyr ar sut i wneud cwyn a sut i gefnogi neu gynghori rhywun sy'n dymuno gwneud cwyn am eu rhyngweithio â'r heddlu. Canfu adborth o'r hyfforddiant fod staff Cymorth i Ddioddefwyr yn teimlo'n fwy gwybodys am ein gwaith a system gwynion yr heddlu, ac yn fwy hyderus wrth gynghori dioddefwyr am gamau y gallent eu cymryd.

Mae gan hyn y potensial i gael effaith sylweddol ar ddioddefwyr, o ystyried bod yr elusen yn ateb dros 88,000 o alwadau ffôn, negeseuon e-bost, a sgysiau sgwrs fyw bob blwyddyn ac yn cefnogi dros 100,000 o bobl trwy eu gwasanaethau yn y gymuned.

Fe wnaethom hefyd barhau i ofyn am gyngor ac adborth gan ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Allanol a chydlynu cyfarfod Fforwm Rhanddeiliaid Cymru a oedd yn canolbwyntio ar wahaniaethu ar sail hil.


Beth mae ein rhanddeiliaid yn ei ddweud

Yn eich barn chi, pa mor effeithiol, neu aneffeithiol, yw'r IOPC yn y meysydd canlynol?


y % sy'n dweud 'effeithiol' NAMYN y % sy'n dweud 'aneffeithiol'

■ 2019 ■ 2020


Sicrhau bod yr heddlu'n atebol am eu gweithrediadau




Codi safonau i sicrhau nad yw camgymeriadau'n parhau



Sicrhau bod gwasanaeth yr heddlu'n dysgu o'r cwynion




Gwella'r ffordd y mae'r heddlu'n delio gyda chwynion




Ydych chi o'r farn bod yr heddlu'n annibynnol o'r heddlu?

Aileiriwyd y cwestiwn hwn yn 2020 er mwyn cael barn rhanddeiliaid ar annibyniaeth



Pa mor hyderus ydych chi, os o gwbl, bod yr IOPC/IPCC yn delio gyda'i waith yn ddiuedd?

Aileiriwyd y cwestiwn hwn yn 2019 er mwyn cael barn rhanddeiliaid ar annibyniaeth



ASTUDIAETH ACHOS

Ymgysylltu â chymunedau lleol

Yn ystod y protestiadau Mae Bywydau Du o Bwys a COVID-19, mae tensiynau cymunedol gyda'r heddlu wedi gwaethygu dros y 12 mis diwethaf.

Gwnaethom gynyddu ein hymgysylltiad â chymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yr effeithiwyd arnynt gan ddigwyddiadau difrifol gyda'r heddlu trwy sefydlu grwpiau cyfeirio cymunedol i wrando, rhannu gwybodaeth, a chynyddu hygyrchedd i'r IOPC a thryloywder.

Rydym wedi cynnal dros 30 o gyfarfodydd grwpiau cyfeirio cymunedol a saith cyfarfod cymunedol arall am achosion proffil uchel gydag aelodau lleol o'r gymuned yr effeithiwyd arnynt.

Rydym wedi gwrandao ar bryderon, wedi rhoi gwybodaeth glir i bobl am sut y cynhaliwyd yr ymchwiliad ac wedi hysbysu'r rhanddeiliaid o'r hyn oedd yn digwydd.

“Diolch am bopeth yr ydych yn ei wneud i helpu Haringey ymateb yn briodol i achosion sy'n peri pryder yn ymwneud â'r MPS yn ein bwrdeistref.”

Y Parchedig John Wood, Cyfarwyddwr Hope in Tottenham

“Rwyf wir yn gwerthfawrogi eich dull cyfannol o rannu gwybodaeth i helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth a gwybodaeth”

Charles Kwaku-Odoi, Prif Swyddog y Rhwydwaith Iechyd Caribiaidd ac Affrica

“Rwyf wir yn gwerthfawrogi eich bod yn darparu llwyfan i ddweud y gwir wrth y rhai sydd mewn grym.”

Zed Ali, Prif Swyddog Sefydliad Cydraddoldeb Sir Gaerhirfryn

Rhoi defnyddwyr gwasanaeth yn gyntaf

Yn 2020/21, gwnaethom gadw ein hachrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer, safon a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n dangos ein hymrwymiad i wasanaeth cwsmeriaid.



Gwnaethom gadw'r sgôr uchaf mewn tri maes sy'n ganolog i'n gwaith:

- gweithio gyda grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth anodd eu cyrraedd a difreintiedig
- rhoi defnyddwyr gwasanaeth wrth galon yr hyn a wnawn
- bod yn sefydliad dysgu - dysgu o arfer gorau a rhannu'r dysgu hwnnw yn fewnol ac allanol

“Rydym wedi ailstrwythuro ein tîm o amgylch ein cwsmeriaid, gan roi dadansoddwr ymroddedig i bob rhanbarth. Mae'r gwelliannau yr ydym wedi'u gwneud yn fawr a gobeithiwn barhau i greu newidiadau cadarnhaol...er mwyn sicrhau gwell profiad i'n cwsmeriaid”

Swyddog cymorth dadansoddol yr IOPC



“Rwy’n credu bod yna arweinyddiaeth gref a phendant a pharodrwydd i wrando ac ymateb. Rwy’n falch i weithio i sefydliad sy’n gwerthfawrogi staff a barn y staff.”

Ymatebwr, arolwg pwls staff Gorffennaf 2020

Bod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon

BLAENORIAETH



Byddwn yn denu a chadw gweithlu amrywiol a medrus ac yn rhoi amgylchedd gwaith da iddynt gan wella yn barhaus i gynnig gwerth am arian.

Ein huchelgais yw bod yn le gwych i weithio ynddo. Rydym yn sefydliad pobl gyda ffocws clir ar sut mae ein pobl yn cael eu cefnogi a'u cynnwys fel y gallant gyflawni eu potensial llawn gan weithio gyda ni. Mae ein pobl, ein gwerthoedd a'n diwylliant yn ganolog i'n llwyddiant.

Rydym wedi ymrwymo i roi mynediad i'n pobl i'r sgiliau, y wybodaeth a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i berfformio ar eu gorau. Rydyn ni hefyd yn newid sut rydyn ni'n recriwtio, i wella amrywiaeth ein gweithlu a chynrychioli'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu yn well.

Rydym yn ymdrechu i fod yn sefydliad effeithlon a byddwn yn parhau i gynnig gwerth am arian i'n defnyddwyr gwasanaeth a'n trethdalwyr.

Cefnogi ein pobl yn ystod y pandemig

Mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 roedd yn rhaid i ni addasu a newid y ffordd roeddem yn gweithio yn sylweddol. Gwnaethom gynnal parhad busnes trwy symud yn gyflym i weithio gartref, aros yn hyblyg a mabwysiadu gwahanol ffyrdd o weithio, o'r ffordd y roeddem yn cymryd datganiadau tystion i gadw ein staff yn gysylltiedig yn rhithwir.

Er gwaethaf y pandemig, gwnaethom gyflawni ein blwyddyn gryfaf o berfformiad erioed fel yr adlewyrchir yn ein dangosyddion perfformiad ar amseroldeb ac argymhellion dysgu yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Gwnaethom geisio adborth rheolaidd gan staff trwy arolygon pwls a helpodd i lywio penderfyniadau sefydliadol a sicrhau bod ein staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth bob amser⁷. Blaenoriaethwyd lles ein pobl a rhoddod fentrau ar waith o sesiynau cwnsela i awgrymiadau lles a gweithgareddau i gadw staff mewn cysylltiad.

“Rwyf wir wedi gwerthfawrogi natur agored uwch reolwyr a'u parodrwydd i ymgysylltu â staff, a bod yn fwy gweladwy...Rwy'n teimlo ein bod ni wedi dod yn sefydliad mwy cysylltiedig er ein bod ni wedi ein datgysylltu'n gorfforol”.

Ymatebwr, arolwg pwls staff Gorffennaf 2020

Ar y cyfan, dywedodd ein pobl wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth, bod uwch arweinwyr wedi gwneud penderfyniadau da yn gyflym, a'u bod yn teimlo'n wybodus ac yn gallu gweithio o bell.

Gwnaethom gynhyrchu arweiniad i staff i'w helpu i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol ac

addasu ein swyddfeydd i ddarparu gweithle diogel i gydweithwyr yr oedd angen iddynt fod mewn swyddfa. Cafodd llawer o'r newid ei arwain gan weithgorau bach a oedd yn hybu gweithredu ac arloesi.

⁷ Ymatebodd 668 aelod o staff i'r arolwg ym mis Ebrill 2020, 767 i'r arolwg ym mis Mehefin a 429 i'r arolwg ym mis Rhagfyr.

Gweithio tuag at IOPC mwy cynhwysol ac amrywiol

Rydym yn sefydliad cynhwysol sydd wedi ymrwmo i hyrwyddo cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth ym mhopeth a wnawn. Mae mentrau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- arwyddo'r Siarter Hil yn y Gwaith i ddangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb a chynhwysoldeb hiliol
- dechrau datblygu strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) yn amlinellu ein dyheadau ar gyfer y tair blynedd nesaf a pholisi EDI sy'n nodi'r ymddygiad yr ydym yn ei ddisgwyl gan ein staff.
- rhoi polisi recriwtio newydd ar waith i gynyddu cyrhaeddiad i ddarpar ymgeiswyr Du, Asiaidd a lleiafrif ethnig, gwella amrywiaeth a datblygu gwell llwybrau gyrfa ar gyfer y dalent amrywiol sydd gennym eisoes
- sefydlu grŵp cynghori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) i helpu i lunio diwylliant ac ymddygiad y sefydliad
- creu rolau llysgennad cynhwysiant newydd i weithio ochr yn ochr â'n rhwydweithiau staff a gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer staff ar faterion EDI
- lansio ein rhaglen gynghreiriaeth gyntaf a'n cynllun mentora o chwith i alluogi gwell cynhwysiant a meithrin amgylchedd o dwf a dysgu

“Roedd cael clywed cyfrifon uniongyrchol o sut beth yw bod yn aelod du o staff yn yr IOPC yn agoriad llygad i mi a gwnaeth fy annog i feddwl am sut y gallwn fod yn gynghreiriad gwell yn y dyfodol.”

Claire Bassett, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol - Gweithrediadau

Datblygu ein harbenigedd

Mae ein rhwydweithiau pwnc mewnol (SMNs) yn dwyn ynghyd ddisgyblaethau o bob rhan o'n sefydliad i nodi dysgu a sicrhau bod ein gwaith gweithredol yn adlewyrchu arfer da.

Eu nod yw datblygu ein gwybodaeth, yn fewnol ac allanol, a chynyddu ein heffaith fel sefydliad. Bydd y rhwydweithiau yn sicrhau twf yn ein harbenigedd technegol, ein pobl ac effeithlonrwydd gweithredol.

Eleni gwnaethom barhau i arfogi ein pobl â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddarparu gwasanaeth rhagorol. Cyflawnodd ein SMNs waith yn amrywio o gynhyrchu canllawiau ar ddefnyddio iaith beio dioddefwyr i lunio polisiâu staff ar gam-drin domestig ac arwain argymhellion dysgu cenedlaethol a lleol yn eu meysydd arbenigedd.

Mae ein Rhwydweithiau Pwnc yn canolbwyntio ar:



camdriniaeth ddomestig



marwolaeth yn y ddalfa



gwahaniaethu



iechyd meddwl



plismona ffyrdd



defnyddio grym,
Taser ac opsiynau
llai marwol



camddefnyddio
statws er dibenion
rhywiol

ASTUDIAETH ACHOS

Hyfforddiant gwahaniaethu ar sail hil yn adeiladu sgiliau staff

Yn cwmpasu cymysgedd o theori ac ymarfer, cwblhaodd 70 o ymchwilyr a rheolwyr gwaith achos hyfforddiant gwahaniaethu ar sail hil yn ystod y flwyddyn i gefnogi ein gwaith ar wahaniaethu ar sail hil a phlisma.

Datblygwyd y cwrs i wella ansawdd ymchwiliadau i honiadau o wahaniaethu ar sail hil, gyda'r cwrs yn ymdrin â chymysgedd o theori ac ymarfer ac yn cynnwys cyflwyniad gan Brifysgol Fetropolitan Manceinion ar sut y gellir trin pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrif ethnig yn wahanol ac yn fwy llym yn y system cyfiawnder troseddol.

Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, mae disgwyl i'r cyfranogwyr arwain ymchwiliadau gwahaniaethu ar sail hil, helpu ymchwilyr arweiniol eraill gydag ymchwiliadau gwahaniaethu ar sail hil, a rhannu dysgu a gweithwyr eraill yn eu swyddfa gyda chefnogaeth y Rhwydwaith Materion Pwnc Gwahaniaethu.

Yn dilyn yr hyfforddiant, cytunodd yr holl ymatebwyr fod eu dealltwriaeth o'r pwnc wedi cynyddu, dywedasant eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddelio ag achosion gwahaniaethu ar sail hil, ac roedd y mwyafrif yn teimlo y byddai eu perfformiad yn gwella yn dilyn y dysgu.

Yn dilyn yr hyfforddiant, cytunodd staff fod eu dealltwriaeth o wahaniaethu ar sail hil wedi cynyddu a nododd eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddelio â'r achosion hyn.

Sefydliad mwy effeithiol

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu systemau ac offer gwell i'n staff ac yn ystod y flwyddyn fe wnaethom symud i ganolfan gymorth TGCh fewnol, sy'n cael graddfeydd boddhad o 99% gan y staff. Helpodd hyn ein staff i symud yn gyflym at weithio o adref yn ystod pandemig COVID-19.

Cyhoeddir rhagor o wybodaeth am ein cyllideb, data'r gweithlu a pherfformiad yn ein hadroddiad blynyddol, sydd ar gael yn www.policeconduct.gov.uk

The image shows the letters 'IOP' in a large, bold, dark grey sans-serif font. To the left of the 'I' is a thick, solid gold vertical bar. The background is a light grey gradient.



Independent Office for Police Conduct



I ddysgu mwy am ein gwaith neu i wneud cais am yr adroddiad hwn ar ffurf arall, gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:

www.policeconduct.gov.uk

Dilynwch ni ar Twitter: **@policeconduct**

Anfonwch e-bost atom yn: **enquiries@policeconduct.gov.uk**

Ffoniwch ni ar: **0300 020 0096**

Cyfnewid testun: **18001 0207 166 3000**

Ysgrifennwch atom i:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU**

We welcome telephone calls in Welsh
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

This document is also available in Welsh
Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg hefyd